CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 27 Gorffennaf, 2015 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr G Harker-Roberts, (Brynteg), Mr E Ll Owen, (Benllech B), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mrs J Peers, (Llanbedrgoch), Mrs D Roberts, (Benllech B), Mr I Williams, (Benllech B), Miss N Williams, (Benllech B).

39 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mr P Brook, (Benllech A) a Mr P Day, (Benllech B).

40 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2015.

LLWYBRAU, FFYRDD A PHALMENTYDD

41 CYNGOR SIR YNYS MÔN - GWYRO LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 55.

Cyflwynwyd - llythyr gan Gyngor Sir Ynys Môn yn hysbysu cais gan Mr R G Roberts, Maes Carafanau Bodafon, Benllech i wyro Llwybr Cyhoeddus 55 ym mhlwyf Llanfair M.E.

PENDERFYNWYD - i ganiatáu'r cais.

42 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan aelodau – amrywiol faterion a oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

43 UN LLAIS CYMRU - PWYLLGOR ARDAL YNYS MÔN.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Ardal Ynys Môn a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Cyngor Tref Llangefni ar yr 11 o Ragfyr 2014.

44 UN LLAIS CYMRU - PWYLLGOR ARDAL YNYS MÔN.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Pwyllgor Ardal Ynys Môn a gynhaliwyd yn Llangefni ar 26 o Fehefin 2014.

45 CYNGOR IECHYD CYMUNED GOGLEDD CYMRU.

Cyflwynwyd - e-bost gan Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yn gwahodd pryderon am ansawdd y gofal a ddarperir gan y gwasanaeth iechyd yng ngogledd Cymru.

PENDERFYNWYD – cyfeirio at wardiau yn gorfod cau yn Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi o ganlyniad prinder staff cymwys.

46 CYNGOR SIR YNYS MÔN - CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynwyd er gwybodaeth - cofnodion y Fforwm Cyswllt ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned a gynhaliwyd ar 21 o Ionawr 2015 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni.

47 CYMDEITHAS GENEDLAETHOL CYNGHORAU LLEOL – DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DEMOCRATIAETH) CYMRU 2013.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – nodyn cyfreithiol gan Gymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol yn manylu cynnwys Adran 55 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru 2013 yn ymwneud a dyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth electronig ar wefannau Cynghorau Cymuned.

48 UHY HACKER YOUNG – CYFRIFON 2015.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - llythyr atgoffa gan UHY Hacker Young yn tynnu sylw at anfon Datganiad Cysoni'r Banc iddynt yn brydlon.

49 GRANTIAU A RHODDION.

Cais am grant gan y canlynol :-

(i) Henaduriaeth Môn, Mynwent Capel Tabernacl Tynygongl.

PENDERFYNWYD - ar sail y pwerau a roddwyd yn Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd) ac oherwydd bod y Cyngor o'r farn fod y gwariant yn unol â gofynion yr Adran, cymeradwyo talu :-

(1) grant o £200 i Henaduriaeth Môn Capel Tabernacl Tynygongl.

BILIAU A CHYFRIFON

50 BILIAU

PENDERFYNWYD - talu'r biliau a ganlyn :-

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Eira Fôn Parry	Gwasanaeth Cyfieithu	£50-00
Lingo Cyf	Hurio Offer Cyfieithu	£36-00
MacVenture Play Co Ltd	Atgyweiriadau i Caer Berllan	£1566-00
Wright Landscapes Ltd	Cynllun Draenio'r Fynwent	£10177-99
G E Pritchard	Ad-daliad hysbyseb TCC	£75-01

51 CYFRIFON

Cyflwynwyd - cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) ym Mehefin, 2015.

PENDERFYNWYD – nodi'r cyfrif a chymeradwyo'r taliadau.

52 CYLLIDEB Y CYNGOR

Cyflwynwyd - manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu â'i gyllideb am y cyfnod o Ebrill 1, 2015 i ddiwedd mis Mehefin, 2015.

PENDERFYNWYD – nodi a chymeradwyo'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

53 TELEDU CYLCH CYFYNG.

Eglurodd y Clerc mai un datganiad o ddiddordeb a ddaeth i law mewn ymateb i hysbyseb y Cyngor yn y "Daily Post" a'r "Holyhead & Anglesey Mail" parthed uwchraddio'r sustem Teledu Cylch Cyfyng cyfredol. Cafwyd galwadau ffôn gan Gynghorau Sir Gwynedd a Chonwy fodd bynnag ond wedi egluro natur y gwaith angenrheidiol, nid oeddent â diddordeb pellach.

Trafodwyd e-bost cwmni "CCTV Services" Llandudno a oedd â diddordeb yn yr uwchraddio. Buasai hyn ar linellau cyffelyb i'r sustem a osodwyd i Trefi Môn yn ddiweddar.Un fantais o'r sustem hon fuasai cyswllt byw i'r camerâu ym Menllech o Orsaf yr Heddlu yn Llangefni. Buasai rhaid cael camerâu newydd ag offer derbyn darluniaeth newydd yn ogystal ond mi fuasai'n bosib defnyddio'r safleoedd presennol ac efallai ymestyn i safleoedd newydd os oedd galw.

PENDERFYNWYD - gofyn i'r cwmni "CCTV Services" am ddyfynbris o'r gwaith uwchraddio, hefyd i'r Clerc ystyried paratoi cais am nawdd tuag at y gost o Gronfa Ymddiriedolaeth Ynys Môn.

54 CYMDEITHAS RHANDIROEDD BENLLECH.

Trafodwyd e-bost Cymdeithas Rhandiroedd Benllech a oedd yn ceisio nawdd tuag at wella cyflwr y llwybr modur a oedd yn arwain i'r safle garddio o'r briffordd. Mae'r llwybr presennol yn anaddas i foduron ar ôl cyfnodau o law ac yn amhosib o'r Hydref hyd y gwanwyn canlynol.

Roedd y Gymdeithas wedi cael dyfynbris gan gwmni lleol i roi wyneb caled ar y llwybr presennol ar gost o £3946-00 ond wedi di ystyri hwn gan eu bod yn teimlo na fedrent gasglu swm o'r fath. Bwriad y Gymdeithas oedd gwneud y gwaith eu hunain fesul tipyn ac roeddent yn ceisio nawdd gan y Cyngor i gychwyn y gwaith, unai yn ariannol neu seibiant talu rhent am ddwy flynedd.

PENDERFYNWYD - cytuno i seibiant talu'r rhent blynyddol o £200 am ddwy flynedd.

55 PARTNERIAETH GWYNEDD A MÔN - ADEILADU CYMUNEDAU.

Adroddwyd crynodeb o ddigwyddiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Llangefni ar y 30 o Fehefin pan gafwyd cyflwyniad gan Mr Brian Jones o Bartneriaeth Gwynedd a Môn ar Adeiladu Cymunedau. Y neges a gafwyd oedd bod angen i Gynghorau Cymuned weithio gyda'r sector wirfoddol, a sefydliadau'r sector gyhoeddus i gynllunio a darparu gwasanaethau i'r gymuned leol. Barn cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned yn y cyflwyniad oedd bod llwyddiant gyda'r fenter angen gwaith sylweddol gan aelodau'r Cyngor Cymuned yn enwedig yn y dechrau. Penderfynodd yr aelodau estyn gwahoddiad i Mr Brian Jones i gyfarfod Awst o'r Cyngor Cymuned i gael gwell dealltwriaeth o union natur y gwaith a oedd ei angen gan yr aelodau. Yn ogystal penderfynwyd gwahodd cynrychiolydd o'r Cynghorau Cymuned gyfagos, Llanddyfnan, Llaneugrad, Moelfre a Phentraeth gan mai menter Adeiladu Cymunedau fydd yn cael ei drafod.

56 HEDDLU GOGLEDD CYMRU.

Cafwyd adroddiad gan Swyddog Cynorthwyol yr Heddlu yn yr ardal , Carwyn Gilford. Eglurodd fod peth tor cyfraith wedi digwydd yn ddiweddar gydag achlysuron o ladrata ym Menllech a phentrefi cyfagos eraill. Yn ogystal roedd problem parcio anghyfreithlon tu allan i Ysgol Goronwy Owen ar adegau dechrau a diwedd dydd yr ysgol. Diolchwyd i Mr Gilford am ei gyfraniad gan y Cadeirydd.

CYNLLUNIO

57 CEISIADAU

PENDERFYNWYD ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn:-

1. Caniatáu:

30C148A	Tyddyn Tirion, Benllech.
30C348C/DA	The Warehouse, Llangefni Road, Benllech

2. Gwrthod

30C350A/1/V	Storws Wen, Benllech - Teimlwyd fod cyfnod o bum mlynedd ers y caniatâd gwreiddiol yn fwy na digonol i ddechrau'r gwaith ac nad oedd

	ymestyn am dair blynedd ychwanegol yn rhesymol. Yn ogystal teimlwyd nad oedd rheswm " dim ariannu gan y banc" yn ddilys.
30C779	Chretien, 56 Maes Llydan, Benllech – Maint yr estyniad a'r codiad uchdwr y to allan o gymeriad gyda'r tai cyfagos.
30C267B	Bwlch Holiday Park, Tynygongl – pryderon trafnidiaeth.

58 PENDERFYNIADAU

Adroddwyd er gwybodaeth - penderfyniadau cynllunio diweddar Gyngor Sir Ynys Môn.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8-15 yr hwyr.